Ardal Pentrefoelas, Penmachno ac Ysbyty Ifan - Nodiadau Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Dydd Llun 2 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. W. E. Jones
Cyng. D. O. Roberts

1. Cyflwyniad

Rhoddodd DB gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: O ble cawsoch y fformiwla sy'n cyfrifo arwynebedd llawr? Gofynnwyd hyn yn y cyfarfod ymgynghori 18 mis yn ôl ac rydym dal heb gael ateb.
A: Darperir y cyfrifiad arwynebedd llawr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
S: Ni theimlaf fod y fformiwla yn gwneud synnwyr ac mae'n annheg.
C: Mae amgylchedd dysgu plentyn yn bwysig iawn.
A: Nid wyf yn anghytuno â hyn.
C: Pam nad yw moderneiddio ysgolion cynradd wedi digwydd ynghynt?
A: Dechreuodd Conwy 12 mlynedd yn ôl ac mae newidiadau a moderneiddio ysgolion cynradd eisoes wedi digwydd. Mae'r ysgolion cynradd yn nhref Conwy yn enghraifft dda gan y'u cyfunwyd i Ysgol Porth y Felin. Rhaid cynhyrchu strategaeth yn awr gan mai dyma'r unig ffordd i gynnig am a chael arian cyfalaf yr unfed ganrif ar hugain gan LlCC a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.
S: Bu llawer o fuddsoddiad mewn ysgolion uwchradd.
A: Mae hyn yn wir ond rhaid ystyried y ffaith fod y gwelliannau hyn wedi eu hariannu gan gynlluniau ariannu preifat.
S: Credu mai LlCC sy'n achosi'r problemau hyn ac yn creu'r angen i newid. Nid oes ganddynt record o roi arian i ardaloedd gwledig. Rhaid ystyried problemau cyfuno yn yr ardal wledig. Os oes tywydd drwg, bydd yn anodd cludo plant i ysgol sydd filltiroedd i ffwrdd.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Eglurwyd y cyfrifir capasiti ysgol gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan LlCC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Os oedd dosbarth meithrin, ni chynhwysir yr arwynebedd llawr hwn. O ran lleoedd gwag, dim ond disgyblion amser llawn a ystyrir yn y cyfrifiad hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut y cyfrifir hyn - edrychwyd ar y derbyniadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac yna defnyddiwyd cyfartaledd i ragamcanu niferoedd disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn gywir o fewn 1%. Roedd rhagamcanion disgyblion hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Cynhyrchwyd y rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy adolygiad o Fwletinau Adeiladu a'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Nid oedd y rhestr yn rhestr o bethau hanfodol ond os adeiladwyd ysgol newydd, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Derbyniwyd fod camgymeriad ar restr Ysgol Ysbyty Ifan gan eu bod yn defnyddio'r neuadd bentref.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Pwy aeth o amgylch yr ysgol i'w hasesu yn erbyn y rhestr 'Addas i'r Pwrpas'?

A: Swyddogion o Rheoli Safle ac arwyddwyd y rhestr derfynol gan y penaethiaid.

S: Cytuno fod newidiadau wedi eu gwneud ers cyhoeddi'r ddogfen hon ac nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y data.

A: Derbyn fod rhai newidiadau a phan ail gynhyrchir y rhestr yn y strategaeth derfynol, bydd y rhain yn cael eu cynnwys.

S: Dylai'r newidiadau hyn fod wedi eu gwneud cyn y cyfarfod hwn a'u cynnwys ar y taflenni data.

C: Rydym wedi holi'r adran rheoli safle ynglŷn â chywirdeb y rhestr ac nid ydynt wedi derbyn y dylid ei newid, pam?

A: Mae cwestiynau ynghylch os oes gan un ystafell dau ddefnydd ac os mai dyma'r achos, mae'r rhestr yn nodi nad yw'r ail ddefnydd ar gael yn yr ysgol.

S: Mae lleoedd gwag yn gyfle i ysgolion ddefnyddio'r gwagle hwn ar gyfer rhywbeth arall. Rwyf hefyd yn aneglur ynglŷn â'r dalgylch, beth yw'r dalgylchoedd?

A: Mae'r dalgylchoedd wedi bodoli am nifer o flynyddoedd ac fe'u gosodir gan y Comisiwn Ffiniau Wardiau gan ddefnyddio mapiau.

S: Nid yw'r dalgylchoedd hyn yn addas ar gyfer ardaloedd gwledig ac nid dyma'r dalgylchoedd naturiol ar gyfer yr ysgolion.

S: Nid wyf yn credu fod rhai o'r ystadegau o fewn y data yn gywir. Os nad ydynt yn gywir, sut allwn ymddiried ynddoch i wneud y penderfyniad iawn ar gyfer ein hardal?

C: Sut y cyfrifir y gost fesul disgybl?

A: Cyllideb yr ysgol wedi ei rannu gyda nifer y disgyblion.

S: Os yw plant yn mynd i gael eu symud ymhellach, bydd y gost fesul disgybl yn cynyddu trwy gostau teithio.

A: Nid yw costau teithio yn cael eu cynnwys yn y gost fesul disgybl. Mae cyllideb ar wahân ar gyfer hyn ond rydym yn cymryd ystyriaeth o'ch pwynt.

S: Mae gan ein hysgolion safonau addysgol da ac nid yw £7000 ar addysg pob plentyn yn llawer i sicrhau y darperir hyn.

A: Oherwydd y gostyngiad yn nifer y disgyblion o flwyddyn i flwyddyn, bydd LICC yn darparu cyllideb refeniw lai i ni ei rhoi i ysgolion. Golyga hyn y bydd yr ysgolion yn cael llai o arian bob blwyddyn a bydd angen iddynt weithio o fewn cyfyngiadau hyn. Angen cydweithio i wynebu'r broblem hon heb effeithio ar safonau addysgol.

C: Beth yw'r pethau nad ydym yn eu darparu yn ein hysgolion ar hyn o bryd?

A: Yn sicr rydych yn darparu addysg o safon uchel ond mae'r adeiladau yn hen iawn ac fe'u hadeiladwyd ar gyfer yr hen gwricwlwm. Angen cael arian yr unfed ganrif ar hugain a buddsoddi ynddynt ar gyfer y dyfodol. Bydd y pot refeniw yn gostwng yn barhaus ac felly nid yw'n gynaliadwy cael 62 ysgol.

C: Felly mae hyn yn golygu y bydd rhai ysgolion yn cau?

A: Ydy dyma'r realiti ond nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw un o'r tair hyn o reidrwydd yn cau. Angen meddwl am yr amrywiol opsiynau sydd ar gael gan na fydd LlCC yn darparu arian i gynnal 62 o ysgolion yn y dyfodol.

C: Ai dyma'r brif broblem felly – LlCC yn mynnu eich bod yn ad-drefnu?

A: Rhaid i ni gynhyrchu strategaeth sy'n dangos ein bod yn gweithio o fewn canllawiau LlCC i gael arian cyfalaf ar gyfer gwelliannau.

C: Os oes llai o arian yn dod i mewn ar gyfer addysg, ydych yn ystyried dyfodol y staff addysg yn Ffordd Dinerth hefyd?

A: Byddwn yn edrych ar ad-drefnu yn Ffordd Dinerth yn y dyfodol.

S: Nid yw LlCC yn cefnogi ardaloedd gwledig, mae hyn yn ergyd arall i gefn gwlad.

A: Mae cynghorwyr yn hysbysu LlCC ynglŷn â'r anawsterau yma yng Nghonwy a'r llynedd cawsom gynnydd yn ein cyllideb refeniw. Yn anffodus rydym wedi cael llai eleni ac felly mae angen i chi ddweud wrthym pam fod cadw tair ysgol ar agor yn yr ardal hon yn bwysig a pham y dylem fuddsoddi mewn tair ysgol gyda nifer isel o blant.

S: Teimlo eich bod yn ceisio gwneud i ni weithio yn erbyn ein gilydd a dweud pam fod ein hysgol ni yn well na'r llall.

A: Nid dyma'r achos, rydym eisiau i chi gydweithio i ddod o hyd i'r ateb gorau.

S: Rydym yn ofni cyflwyno ein safbwyntiau rhag ofn i chi ddefnyddio ein barn yn ein herbyn.

A: Ni ddefnyddir eich safbwyntiau yn eich erbyn. Dosbarthir nodiadau'r cyfarfod hwn i'r rhai sy'n bresennol a'u cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

S: Hefyd yn pryderu os yw eich ffiniau yn newid, bydd y pwyntiau a wnaed gennym yn cael eu cymryd allan o'u cyd-destun.

A: Bydd y strategaeth hon mewn lle am 5-15 mlynedd.

C: Os ydym oll yn cyflwyno syniadau da ynghylch pam y dylid cadw'r tair ysgol ar agor, sut fyddwch yn dewis pa ysgolion ddylai gau os o gwbl? A fyddwch yn ei seilio ar yr ystadegau?

A: Ni fydd yn seiliedig yn unig ar yr ystadegau a bydd angen blaenoriaethu unrhyw newidiadau.

S: Nid wyf yn siŵr os bydd unrhyw beth a ddywedir gennym yn gwneud gwahaniaeth, teimlo eich bod am gau ein hysgolion beth bynnag.

A: Nid dyma'r achos, mae gennym y ffeithiau ond mae angen i ni gael ochr ddynol y ddadl.

C: A allwch chi newid y tabl 'addas i'r pwrpas' a'i ail gyhoeddi?

A: Gallwn.

Eglurodd GT y gweithdy a gofynnwyd i bob ysgol drafod y penawdau ar bob taflen.

3. Adborth Gweithdy

Ysbyty Ifan

Adeiladau ac Adnoddau

Hapus iawn - o safbwynt: staff, rhieni, llywodraethwyr ac Estyn - y gymdeithas a safon yr addysg yn adnodd gwerthfawr
Cyflwr yr ysgol yn wych: cadarn, cegin gwerth chweil, cymeriad yn perthyn i adeilad yr ysgol
Gardderchog - yn ardderchog! Gardd a gynlluniwyd gan y clwb ffermwyr ifanc ar y cyd hefo'r ysgol (yr ardal/ardal tu allan)

Lleoliad braf - ac yn ganolig i'r pentref

Adnoddau digonol o ran - byrddau gwyn, cyfrifiaduron, gliniaduron

Cae chwarae ardderchog

Neuadd - llwyfan i'r plant

<u>Defnydd cymunedol o'r adeiladau</u>

Mudiad Ysgolion Meithrin
Pwyllgor rhieni ac athrawon
Ffermwyr Ieuanc
Llywodraethwyr
Cyngor Plwyf
Clwb Garddio
Cyrsiau Cyfrifiadurol
Sefydliad y Mercher
Dathlu 150
Urdd - adran bentref ac uwch adran
Cefn Gwlad.org - safle cymunedol

<u>Gwerthoedd ysgolion gwledig</u>

Cynnal iaith a diwylliant yr ardal
Parch ac adnabyddiaeth o'u hardal enedigol
Ymwybodol o hanes eu bro a thraddodiadau
Pob plentyn yn cael y cyfle i gyfrannu e.e. mewn eisteddfodau - pob plentyn yn aelod o'r Urdd
Cyfleoedd allgyrsiol - mae pob disgybl yn cymryd rhan
Rhan o draddodiad yr ysgol i gyfoethogi profiadau'r plant drwy e.e. gwersi offerynnol - mae pob plentyn o Bl 2 i Bl6 (100%) yn manteisio ar o leiaf un offeryn
Cyfrifoldeb am yr amgylchedd lleol - ysgol iach, pob plentyn 100% yn cael cinio'r ysgol
Yn cydweithio gydag ysgolion gwledig eraill yn naturiol

<u>Iaith - Cymreictod y Plant</u>

Cymraeg yw: iaith y dosbarth
iaith y buarth
iaith yr aelwyd
iaith y gymuned
Trwytho yn niwylliant, traddodiadau, ymdeimlad o berthyn, etifeddiaeth eu hardal
Cefnogaeth gref gan rieni
Yr ysgol yn galon i'r gymuned - y ddau beth yn cynnal ei gilydd, tynnu pawb at ei gilydd, o bob oed
Dosbarthiadau bach yn cael eu hystyried yn rhinwedd mewn ysgolion bonedd, dylai'r un peth fod yn wir mewn ysgol wledig

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

Mae'r ysgol yn rhan allweddol o'r gymuned: calon y gymuned
Digwyddiadau'r ysgol yn rhan bwysig o galendr y gymuned: diolchgarwch (yn yr eglwys), canu carolau, - o dŷ i dŷ, bore agored - pobl o'r gymuned, rhieni a llywodraethwyr yn mynychu
Yr ysgol yn defnyddio'r neuadd - hyn yn helpu'r neuadd - peth cadarnhaol
Yr ysgol a'r gymuned yn cynnal ei gilydd
Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhan o gymuned yr ysgol (defnyddio'r adeilad)
Cynnal traddodiadau gwledig a diwylliant yr ardal - magu dinasyddion ac arweinwyr ar gyfer y dyfodol - bwydo i'r clwb ieuenctid, ffermwyr ifanc, pwyllgorau
Y ffermwyr ifanc wedi cynllunio a chreu "Gardderchog" sef gardd y cyfnod sylfaen

Addysg

Cymreictod - Cymraeg yn cael ei siarad yn naturiol ar bob aelwyd, ac ar fuarth yr Ysgol - iaith goeth - gwbl naturiol - cyfoethog
Dosbarthiadau oedran cymysg - yn fanteisiol i ymestyn safonau - yn gosod her i'r disgyblion iau - hybu sgiliau cyd-weithio
Teyrngarwch lleol - ymwybyddiaeth o'u cynefin
Ysgolion y clwstwr yn cyd-weithio ond mae'n bwysig cael addysg ar stepen drws y plant: bobl o'r gymuned yn dod trwy ddrysau'r ysgol i gyfoethogi addysg y plant gan drosglwyddo hanes lleol o genhedlaeth i genhedlaeth.
Y plant i gyd â chyswllt amaethyddol

Anghenion a lles plant

Atebolrwydd i'w gilydd

Cryfder y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol - problemau yn cael eu datrys yn syth
Plant o wahanol oedran yn gofalu am ei gilydd - uned deuluol
Cryfder y berthynas rhwng y cartrefi a'i gilydd
Teyrngarwch lleol
Pawb yn cael dweud ei farn - llais pawb yn cael ei glywed
Pawb yn cael cymryd rhan - y cyfleoedd ar gael i bob disgybl e.e. teithio, eisteddfota, chwaraeon..
Gwell adnabyddiaeth o'r plant - eu cefndir a'u hanghenion

Cymdeithasol

Yr ysgol yn unigryw - naturiol Gymreig - iaith y dosbarth a'r buarth
Pwyllgorau a holl gyfarfodydd a gohebiaeth yn uniaith Gymraeg
Teimlad o berthyn - parch at y gymuned a'r ysgol a'r uned deuluol: o ganlyniad ddim problemau fandaliaeth, bwlio a phroblemau cymdeithasol
Teuluoedd amaethyddol
Cyflogi pobl leol - hwb i'r economi a'r gymuned e.e. goruchwylwyr, cogydd, gofalwr
Disgyblion yn cael eu trwytho mewn egwyddorion a moesoldeb o safon uchel
Synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol
Teuluoedd yn dymuno dychwelyd i'r gymuned hon

Pentrefoelas

Defnydd cymunedol o'r adeiladau
Canolfan Gymunedol

Mudiadau - CFfI, Clwb y Plant, Cylch Ti a Fi, Ysgol Feithrin, Godre Hiraethog (Henoed), Merched y Wawr, Urdd, Clwb Pêl Rhwyd, Snwcer
Whist Drives
Ffair Nadolig
Eisteddfod Tai
Cwmnïau Drama
Pwyllgorau amrywiol
Gweithgareddau
Cyngor Cymuned
Codi Arian
Swper Nadolig
Cyngherddau
Dysgwyr
Cyrsiau Addysg ar gyfer oedolion WEA

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas (pentref)

A oes perygl i'r plentyn fod yn ddieithr i'w bentref neu i'r pentref fod yn ddieithr i'r plentyn h.y. plant yn dechrau ysgol yn 3 oed - dod i adnabod Pentref arall yn well nag un ei *hunan*
Rhieni yn dod i adnabod ei gilydd - cryfhau cymuned
Yr ysgol yn cadw Cymreictod yr ardal
Mewnfudwyr yn cael cyfle i gyfarwyddo hefo diwylliant y pentref

Cymdeithasol

Sut ac i bwy mae tai lleol yn cael ei gosod? - problemau yn sgil mewnlifiad
Mewn ysgol fechan gall mewnlifiad sydyn effeithio cydbwysedd cymuned/ysgol/ieithyddol

Economaidd - diffyg gwaith yng nghefn gwlad, diffyg pobl = diffyg plant

Adeiladau ac adnoddau

Toiledau anabl/mynediad i'r anabl
Ystafell bwrpasol ar wahân i'r Cylch Meithrin
Adnoddau Chwaraeon allanol cae ac iard - diogel
Cysgodfan argyfwng cofrestredig
Lle diogel i'r plant fynd a dod oddi ar y bws

Addysg

Pawb yn adnabod ei gilydd
Cryfder cadw'r iaith

Anghenion a lles plant

Cludo'r plant bellter o'r ysgol
Pellter nôl plentyn o'r ysgol os pellter o'i gartref os yn sâl. Oblygiadau gwarchod ychwanegol ar yr athrawon
Ysgol fach mewn nifer - plentyn ar ben ei hunan mewn blwyddyn - anfantais/consyrn
Angenrheidiol bod plentyn yn cael addysg yn ei gymuned

Penmachno

Anghenion a lles plant

Pellter teithio i blant cynradd/meithrin - angen addysg o fewn pellter rhesymol
Tua 60% yn cerdded i'r ysgol rŵan
Yr ysgol yn darparu addysg feithrin yn lleol
Teimlad cryf gan rieni bod angen ysgol o fewn pellter rhesymol
Byddai cau ysgol Penmachno yn golygu taith o hyd at 10 milltir un ffordd - anobeithiol i blant 3-4 oed a hefyd i rai 10-11 oed
Cymhareb athro/disgybl yn fanteisiol i ddatblygiad unigol pob plentyn

Defnydd cymunedol o'r adeiladau

Nifer o gymdeithasau yn defnyddio'r adeilad - pwyllgorau, ymarferiadau, digwyddiadau e.e. Ffair Nadolig, Eglwys yn cynnal cyfarfodydd

Gwerthoedd ysgolion gwledig

Cyfraniad economaidd - darparu swyddi yn lleol
Cyfraniad economaidd - helpu i ddenu pobl ifanc i fyw yn y gymuned
Athrawon a gweithwyr eraill yn byw yn lleol
Canolbwynt ar gyfer y gymdeithas - ysgogi integreiddio a chydlyniad cymdeithasol
Yr ysgol yn elfen hanfodol mewn ardal gweddol ynysig megis Penmachno

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

Plant yn mynychu ysgol y pentref yn datblygu cyfrifoldeb cymunedol - cyfrannu at y gymuned
"Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymdeithas" - adroddiad Estyn
Canolbwynt i weithgareddau cymunedol - ffair haf, cyngerdd, gwasanaethau etc
Integreiddio plant o bob cefndir i fywyd y gymuned
Ysgol yn elwa o gefnogaeth y gymuned - digwyddiadau codi arian, rhieni & cyfeillion yn ymweld â'r ysgol i gefnogi addysg a helpu hefo cyngherddau ac ati

Cymdeithasol

Ffigwr amcanedig ar gyfer 2014 yw 33 pupils - yn seiliedig ar y plant dan 5 yn yr ardal ar hyn o bryd
Adroddiad yr Awdurdod yn gwbl gamarweiniol yn awgrymu 20 yn 2014 - ar sail tystiolaeth ychydig o flynyddoedd nad ydynt yn nodweddiadol o batrwm hanesyddol
Ffigwr o 33 ar sail nifer o fabanod eisoes wedi ei geni
Ar sail y ffigyrau yma byddai llefydd gwag lawr i tua 50% - byddai cost y pen i lawr i tua £4,200

Addysg

Costau teithio yn isel - canran sylweddol yn cerdded i'r ysgol - eraill hefo teithiau byr
Effaith amgylcheddol yn isel - ôl troed carbon yn cynyddu wrth i blant orfod teithio Cost addysgu un disgybl yn rhesymol - hyd yn oed os yw'n £7,000 - byddai'n rhaid ystyried costau teithio o blant yn gorfod teithio y tu allan i'r ardal - tebygolrwydd cryf y bydd niferoedd yn cynyddu - cost y pen felly'n lleihau

Cynnal yr ysgol yw unig fuddsoddiad y Sir yn y gymuned - does dim pyllau nofio, canolfannau hamdden/cymdeithasol, llyfrgell etc - rhesymol disgwyl buddsoddiad uwch mewn addysg i adlewyrchu hyn

Adeiladau ac adnoddau
"Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad parod i amrediad o adnoddau da sy'n briodol i'w anghenion" - adroddiad Estyn
Ystafelloedd addas i'r holl ddisgyblion
Ardaloedd ar gael i addysgu grwpiau bach/anghenion arbennig, athrawon teithiol, athrawon offerynol etc
Digon o le i blant fanteisio ar y Cyfnod Sylfaenol - 16 ardal wahanol yn y dosbarth
Adnoddau tu allan:

- cae chwarae o faint rhesymol i'r nifer o blant
- gweithgareddau cyfnod sylfaen
- iard sylweddol - chwarae gemau buarth
- gardd natur
- gardd llysiau
- wal ddringo

"Mae'r ysgol yn bodloni anghenion a chyrhaeddiad yr holl ddisgyblion ac yn rhoi gwerth da am arian" - adroddiad Estyn

Crynhoi – prif bwyntiau
Ydi fformiwla yn deg? Ail gyhoeddi ystadegau
Addysg ar gyfer dinasyddiaeth
Cludiant - mater pwysig mewn ardal wledig - Beth am y gost?
A ydi'r ystadegau yn gywir?
A ydi'r dadansoddiad o'r ystadegau yn gywir?
Llefydd gweigion yn gyfle
Nid ffiniau plwyf na chod post ydi'r dalgylch o anghenraid
Mae modd defnyddio adnoddau cymunedol e.e. Neuadd Bentref

Dywedodd GT y bydd yn casglu'r holl wybodaeth a'r adborth trwy'r penaethiaid. Gellir parhau i gyflwyno syniadau a safbwyntiau ar ôl y cyfarfod hwn ar e-bost at TJB neu'r Gwasanaethau Addysg a darperir hyn trwy'r penaethiaid.

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: A allwch ad-drefnu'r clystyrau o ysgolion ar y glannau a pheidio cynnwys yr ysgolion gwledig yn y strategaeth?
A: Mae hyn yn opsiwn ond rhaid i ni ystyried os oes angen tair ysgol gydag 20 disgybl yr un.
C: Os ydych yn cyfuno'r tair ysgol hon, mae'r pellter i deithio yn ormod ac efallai na fydd plant yn cael eu hanfon i'r ysgol newydd hon.
A: Byddwn yn sicr yn cymryd ystyriaeth o'r pwynt hwn wrth wneud penderfyniadau.
C: Faint o arian ydych yn gobeithio ei arbed?

A: Nid oes swm pendant gan nad yw hyn yn ymwneud ag arbed arian. Mae'n golygu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd gennym.
C: A ddewisir opsiwn sy'n arbed y mwyaf o arian?
A: Ni ellir dweud nad yw arian yn ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ond lles y plant yw'r peth pwysicaf.
S: Rhaid i chi ystyried gwerth a chyfraniad addysg yn yr ardal wledig.
S: Pe byddech yn cau ysgol fwy gallai hyn gael effaith mwy sylweddol ar leoedd gwag.
A: Mae hyn yn opsiwn.
S: Pryderu fod gennych saith blaenoriaeth ond nid yw cynnal y Gymraeg yn un ohonynt.
A: Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, bydd ein hymroddiad i'n polisi iaith Gymraeg yn sylfaen i'r strategaeth gyfan.
S: Mae'r gost fesul disgybl a gyhoeddir yn y ddogfen yn ymddangos yn gamarweiniol.
A: Fel gyda holl ystadegau, rydym yn derbyn y ffaith eu bod ond yn gywir ar yr adeg y'u cynhyrchwyd. Fodd bynnag mae'r gost fesul disgybl hefyd yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol yn yr Adran 52.
C: A yw'r gost fesul disgybl yn cynnwys costau teithio?
A: Na.
S: Mae'r gost fesul disgybl yn adlewyrchu'n wael ar ysgolion bach ond nid oes gan blant mewn ardal wledig ddefnydd o gyfleusterau megis pyllau nofio etc.
S: Teimlo y dylid cynnwys costau teithio yn y gost fesul disgybl.
A: Rydym yn derbyn y pwynt hwn.
C: A fydd y strategaeth yn cael ei hysgrifennu a'i chyhoeddi cyn yr etholiad?
A: Rydym wedi egluro wrth y cynghorwyr na ddylai hyn fod yn fater etholiad gan ei fod yn fater lleol ac nid yn un ar gyfer San Steffan.
C: Sut wnaethoch ddewis yr ardaloedd a'r rhai ar gyfer adolygiad dechreuol?
A: Rhoi clystyrau i ysgolion gyda'i gilydd ble byddai amrywiol opsiynau yn gweithio yn ddaearyddol a'r rhai ar gyfer adolygiad dechreuol yn seiliedig ar faterion o fewn y pedwar prif yrwyr.
C: A ydych wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto?
A: Na, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud eto.
C: Pam nad yw Ysgol Betws y Coed ar gyfer adolygiad dechreuol gyda 80% o leoedd gwag?
A: Mae materion sylfaenol yn yr ardal hon sydd angen edrych arnynt yn fwy gofalus. Bydd yr ysgol yn cael ei hadolygu mewn 2-5 mlynedd.
C: Pe byddai ein hysgol yn cau, a fyddech yn derbyn y byddem eisiau i'n plant fynd i ysgol sy'n darparu'r un lefel o Gymreictod?
A: Byddai hyn yn bosib gan fod rhaid i ni brofi y byddai plant yn cael yr un gwerth mewn ysgol newydd.

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

<u>Wal syniadau</u>

Ysbyty Ifan - mewn ysgol fach 'rwyf yn teimlo bod hyder y disgyblion yn gryf iawn oherwydd mae <u>pawb</u> yn cael cyfleoedd e.e. mae pawb yn cael cyfle i fod ar Gyngor yr Ysgol ac i gael dweud ei farn ac yn cael siarad fel dosbarth am eu barn am bynciau penodol.

Ysbyty Ifan - Does yna neb erioed wedi dweud fod rhaid i gost y pen pob plentyn fod yr un fath. Mae plant cefn gwlad yn gorfod teithio yn bell i gael pwll nofio/theatr/cae rygbi a.y.b.

Ysbyty Ifan - ddim yn gallu rhoi plant 3 oed ar fws i deithio oddeutu 8/9 milltir i ffwrdd i deithio hefo plant nad ydyn yn eu hadnabod o ardal arall.

Ysbyty Ifan - ydi hi'n bosibl cyrraedd yr arbedion y mae'r Sir angen eu gwneud trwy uno rhai o ysgolion yr arfordir yn unig?(a gadael llonydd i ysgolion cefn gwlad)

Ysbyty Ifan- Pob disgybl yn aelod o'r Urdd, pob disgybl yn cael cinio ysgol. Pob disgybl yn cael gwersi offerynnol

Ysbyty Ifan - Ysgol Gymraeg ei hiaith ar iard yr ysgol.

Ysbyty Ifan - oherwydd bod hyder disgyblion a chyn-ddisgyblion ysgol Ysbyty Ifan mor gryf mae'n golygu bod modd i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion wneud rhywbeth o'r hyder hwn. e.e. Mi gefais fy newis i gynrychioli Ysgol Dyffryn Conwy i fynd i Lundain a Chaerdydd i ymweld â'r "Houses of Parliament" gyda disgyblion oedd yn cynrychioli ysgolion eraill. Os ni fuasai gennyf yr hyder yn fy ysgol, ni fuasai'r cyfle yma yn agored i mi, felly mae'n dangos pa mor bwysig yw cael hyder a chyfleoedd yn yr ysgol gynradd. Hefyd mae llawer iawn o ddisgyblion a chyn- ddisgyblion ysgol Ysbyty Ifan wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd ac mae'r diolch i gyd yn mynd i athrawon yr ysgol am ein hyfforddi a hefyd am roi eu hamser unigol i bob disgybl a oedd yn awyddus i gystadlu. Siwan Rhys Bl 10

Ysbyty Ifan - sut 'da chi'n dod ai'r canlyniad o roi Pentrefoelas Penmachno a Sbyty hefo'i gilydd mewn un clwstwr? Beth am Capel Garmon i'r un clwstwr?

Ysbyty Ifan - Plant diwylliedig
Ysbyty Ifan - cefndir amaethyddol ar bob aelwyd yn 'Sbyty Ifan. Lle arall cewch chi hyn?

Ysbyty Ifan - Pwysigrwydd: cynefin, ymdeimlad o berthyn, treftadaeth, hunaniaeth, traddodiad, diwylliant, cyfrifoldeb cymunedol

Ysbyty Ifan - does dim un disgybl yn derbyn cinio am ddim. Nid yw hyn yn cyfrannu at gost ychwanegol disgybl y pen?

Ysbyty Ifan - Yr esgid ddim yn ffitio pob plentyn.

Ysbyty Ifan - disgyblion o du allan i'r dalgylch yn mynychu ysgol Ysbyty Ifan oherwydd mai dyma'r ardal maent yn cymdeithasu ynddi. Dyma'r ardal naturiol - nid ffin plwyf sy'n pennu ysgol.

Ysbyty Ifan - be ydi'r fformiwla cost y pen?

Ysbyty Ifan tynnu plant o'u cymunedau a'u teuluoedd wrth deithio i ysgol sydd yn bellach i ffwrdd.

Ysbyty Ifan - mae plant yr ysgol yn cymryd rhan yng ngwasanaethau'r Eglwys - colli Ysgol = colli Eglwys.

Cymreictod a hunaniaeth yn bwysig i ni fel teulu - hyn ar gael yn Ysbyty Ifan

Ysbyty Ifan - mewn ysgol fach mae cyfleoedd yn agored i oedrannau iau oherwydd mai llai i blant felly mae cyfleoedd yn agored i bob oedran. Nid dim ond y blynyddoedd hynaf Siwan Rhys Bl 10 Ysgol Dyffryn Conwy

Ysbyty Ifan - Cymraeg yw iaith 100% o'r cartrefi a'r buarth. Sefyllfa cwbl unigryw yng Nghonwy ac efallai yng Nghymru - Rhaid gwarchod hyn
Ysbyty Ifan - ysgol yn cynnal Cymreictod yr ardal/cymuned

Penmachno - pam nad ydych wedi ystyried nifer y plant dan 5? Rydym yn gwybod fod nifer fawr o blant cyn-ysgol yn ardal Penmachno; rydym yn disgwyl i'r rhif gyrraedd 30+

Symud Adran Addysg o Ffordd Dinerth i Lanrwst. Byddai'n cynyddu'r posibiliadau am waith yn lleol - Datganoli Cyngor Conwy!

Plant yn gorfod teithio milltiroedd i'r ysgol

Dosbarthiadau bach yn cael eu hystyried yn rhinwedd mewn ysgolion bonedd, dylai'r un peth fod yn wir mewn ysgol wledig

Ôl-troed carbon – pa effaith fydd cludo'r plant yn ei gael? Pan allant gerdded

Plentyn ar ben ei hun yn ei flwyddyn. Syniad - ymuno ysgolion agos at ei gilydd oddi fewn 1 cymdeithas drefol e.e. lot o ysgolion yn ymyl ei gilydd ar yr arfordir - ymuno'r rhain.

Pobl o'r gymuned yn cael eu cyflogi - e.e. goruchwylwyr, cogyddes, gofalwr, cymorthyddion - hwb i'r economi leol

Camarweiniol i ddefnyddio canrannau pan fo'r rhifau mor fychan - er enghraifft cost fesul disgybl

Beth am i Gonwy fod yn flaengar iawn a chreu strategaeth Drefol a strategaeth Wledig?

Mae pwyllgorau i adfywio cefn gwlad gan Sir Conwy hyn i gadw cefn gwlad yn fyw a bywiogi . Caewch ysgol a bydd y cyfan yn hollol gwastraff amser. Ni fydd poblogaeth mewn cefn gwlad os bydd y plant yn cael eu symud o'u cynefin i gael addysg. Ni fydd ganddynt wreiddiau.

A wnewch chi gyhoeddi cost y pen yn cynnwys costau cludiant a chinio i bob ysgol ac unrhyw gost arall?

Iaith negyddol fel "ar goll" ynglŷn ag adnoddau neilltuol mewn dogfen fel hon yn creu teimladau o fod yn amddiffynnol - ddim yn help.

Cost y pen - mae anghenion pob plentyn yn wahanol - sut mae posibl i un ffigwr fod i bawb? Rhai angen mwy rhai angen llai

<u>Wal bryderon</u>

Pryder - fod y broses o gyfathrebu a gwirio safon data yn un o safon isel gan y Cyngor.

Mi ddylai'r ddogfen fod yn gywir a chlir